# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 28AIN IONAWR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni*

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# PWYLLGOR IAITH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfai
Gwynfor Owen
Elfed Williams
Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Meryl Roberts
Beca Brown

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Peter Thomas
Sedd Wag
Hefin Underwood
Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol – Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD YR ADRAN ADDYSG AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 - 2033 11 - 20

I ystyried yr Adroddiad.

## 6. ADRODDIAD ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 - 2033 21 - 32

I ystyried yr Adroddiad.

# PWYLLGOR IAITH: 22 HYDREF 2024

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Meryl Roberts (Is-gadeirydd)

Alan Jones Evans, Jina Gwyrfai, Olaf Cai Larsen, Elfed Williams, Rhys Tudur, Anne Lloyd Jones, Hefin Underwood a Peter Thomas.

**Swyddogion**: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg), Nia Lewis (Ymgynghorydd Iaith), Anthony Caradog Evans (Swyddog Iaith Cynorthwyol) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Eitem 5: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd) a Carwyn Meredydd (Uwch Swyddog Gweithredol).
Eitem 6; Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).
Eitem 7: Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) a Siôn Arwel Jones (Rheolwr Datblygu Busnes).
Eitem 8: Rhys Meredydd Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Menna Baines (Cadeirydd), Elfed Wyn ap Elwyn, Llio Elenid Owen a Menna Trenholme (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd) a Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Rhys Tudur, gan ei fod yn aelod o Weithgor Polisi Cynllunio Gwynedd. Nodwyd nad oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

**4. COFNODON**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2024 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG – ADRAN AMGYLCHEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Nodwyd bod natur rheng flaen yr Adran yn arwain at gyswllt dyddiol gyda'r cyhoedd a Chynghorwyr ac felly mae pob ymdrech yn cael ei wneud i hyrwyddo'r iaith o ddydd i ddydd, drwy waith a gweithredoedd y staff.

Cadarnhawyd bod polisïau'r Adran yn hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg gan fod ystyriaeth o'r iaith Gymraeg yn ganolog i ddatblygiad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ymhelaethwyd bod Polisi Cynllunio penodol mewn lle ar gyfer delio gyda materion ieithyddol gan nodi bod y Canllaw Cynllunio Atodol yn darparu arweiniad manwl pellach ar sut ddylai'r Gymraeg gael ei hystyried drwy gydol datblygiadau o bob math. Tynnwyd sylw bod y broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd fel un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Pwysleisiwyd bod y Gymraeg yn ganolog i ddatblygu'r Cynllun hwn.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cabinet wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar draws ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (gan nodi nad yw hyn yn cynnwys ardaloedd sydd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri). Adroddwyd bod angen caniatâd cynllunio i newid prif fan preswyl yn ail gartref neu lety gwyliau tymor byr ers i'r Cyfarwyddyd ddod yn weithredol ar 1 Medi 2024. Esboniwyd mai'r amcan yw cael gwell rheolaeth o'r stoc dai o fewn y Sir, gan gwrdd a diwallu anghenion tai trigolion Gwynedd. Ymhelaethwyd bod y Cyfarwyddyd yn fodd i gynorthwyo'r nod o gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Adroddwyd bod cryn dipyn o gynnydd wedi bod mewn ystadegau sgiliau iaith yr Adran yn y flwyddyn ddiwethaf, drwy'r holiadur hunanasesu. Nodwyd bod nifer uchel o staff yn weithwyr rheng flaen, megis y gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu, ble nad oes ganddynt fynediad rhwydd i safle mewnrwyd y staff. O ganlyniad i hyn cwblhawyd yr holiaduron hunanasesu gydag arweinwyr tîm er mwyn deall anghenion ieithyddol y gweithlu. Tynnwyd sylw bod 81.4% o staff yr Adran wedi cwblhau'r holiadur a bod 83.6% o'r gweithwyr hynny yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. Cydnabuwyd bod yr Adran angen parhau i ddatblygu'r maes hwn ond hyderwyd y gwelir cynnydd i'r dyfodol wrth i'r gwaith barhau.

Clodforwyd ymdrechion staff i ddysgu'r iaith a gwella eu sgiliau ieithyddol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Tynnwyd sylw at ystadegyn o fewn yr adroddiad sy'n nodi bod 3 cais cynllunio wedi eu gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol amrywiol a bod 13 cais cynllunio wedi derbyn caniatâd gydag amod ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am ba resymau ieithyddol gall ceisiadau cynlluniau gael eu gwrthod a pha fesurau lliniaru ieithyddol all yr Adran ei osod ar geisiadau llwyddiannus. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad oedd modd rhannu manylion penodol am achosion. Er hyn, ystyriwyd byddai ceisiadau cynlluniau yn cael eu gwrthod oherwydd diffyg tystiolaeth am effaith y datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Ymhelaethwyd y gall yr adran osod amodau lliniaru ieithyddol sy'n ymwneud â'r defnydd o enwau ac arwyddion Cymraeg. Pwysleisiwyd bod amod wedi ei osod ar 35 o geisiadau cynllunio llwyddiannus er mwyn sicrhau enwau Cymraeg ar fusnesau a dros 120 o dai newydd.

Atgoffwyd yr Aelodau nad yw'r Cyngor yn cynorthwyo unrhyw gais cynllunio gyda datganiadau ieithyddol nac unrhyw asesiadau eraill ar gyfer ceisiadau cynllunio, gan bod angen i'r Cyngor fodd yn ddiduedd. Cydnabuwyd bod datganiadau ieithyddol yn cael eu datblygu gan unigolion gyda thuedd i gefnogi'r ceisiadau cynllunio. Er hyn, pwysleisiwyd bod pob cais yn cael ei asesu a'i herio ar sail y dystiolaeth a gyflwynir. Cyfeiriwyd at yr angen am arweiniad cliriach a phendant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r sefyllfa hon i'r dyfodol.

Gofynnwyd beth sydd ar waith gan yr Adran er mwyn asesu'r effaith y caiff Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar y stoc dai yng Ngwynedd. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod fframwaith fonitro mewn lle a bod y gwasanaeth Cynllunio yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y gwasanaeth Trethiant er mwyn nodi newidiadau yn y farchnad wrth i amser fynd yn ei flaen. Ymhelaethwyd bydd modd cadarnhau os oes mwy o dai yn talu'r raddfa treth cyngor sylfaenol ac os yw defnydd tai yn newid wrth i'r broses hon barhau i'r dyfodol.

Ymholwyd a oedd y Pennaeth Cynorthwyol yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau gan Awdurdodau Cynllunio eraill i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn y dyfodol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod Parc Cenedlaethol Eryri wedi penderfynu eu bod yn ymchwilio i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Adroddwyd bod y dystiolaeth a gwybodaeth sydd wedi ei gasglu gan Gyngor Gwynedd yn gymorth mawr iddynt wrth iddynt baratoi i gyflwyno'r Cyfarwyddyd a bod cydweithio clos rhwng y ddau Awdurdod. Nodwyd eu bod wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol a bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan yr Awdurdod yn fuan.

Ystyriwyd nad yw staff rheng flaen gwasanaethau'r Adran, megis gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu, yn adlewyrchu iaith y cymunedau maent yn ei wasanaethu mewn rhai ardaloedd o'r Sir. Nodwyd yr ystyrir heriau recriwtio i fod yn ffactor sy'n arwain at y broblem hon. Mewn ymateb i'r sylwadau, cytunodd y Pennaeth Cynorthwyol bod recriwtio yn heriol i'r Adran yn gyffredinol. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn ymdrechu i ddelio gyda'r sefyllfa hon a gobeithiwyd bydd derbyn gwybodaeth o holiaduron hunanasesu sgiliau ieithyddol yn galluogi'r Adran i fynd i'r afael a'r sefyllfa i'r dyfodol. Ychwanegodd yr Uwch Swyddog Gweithredol bod diffyg hyder aelodau staff i ddefnyddio'r sgiliau ieithyddol sydd ganddynt hefyd yn cyfrannu i'r her hwn. Adroddwyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn annog pob gweithwyr i wneud defnydd o sgiliau'r Gymraeg sydd ganddynt eisoes.

Gofynnwyd a yw'r Adran yn defnyddio asiantaethau er mwyn hysbysebu ceisiadau am waith ynteu yw'r ceisiadau hyn yn cael eu gwneud yn fewnol o fewn y Cyngor. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod ceisiadau am waith yn cael eu gwneud yn ddwyieithog ac yn fewnol o fewn y Cyngor. Ymhelaethwyd bod yr Uwch Swyddog Gweithredol wedi bod yn datblygu pecynnau recriwtio er mwyn i fuddiannau'r Cyngor fod yn fwy deniadol i gwmnïau.

Ymholwyd am ddiweddariad ar ddatblygiad pecyn Tir a Môr ers cyflwyniad yr Adran i'r Pwyllgor Iaith yn 2023. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cynorthwyol bod cryn dipyn o gynnydd wedi ei wneud ar y cynllun hwn gan fod yr Adran wedi derbyn adborth ei fod yn becyn gwerthfawr iawn. Ymhelaethwyd bydd defnydd o'r pecyn yn cael ei ledaenu gan fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi datgan diddordeb i'w ddefnyddio. Sicrhawyd bydd data ar y pecyn hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith wrth gyflwyno diweddariad yr Adran yn 2025.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG – ADRAN GYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Cyfrifeg a Phensiynau) a Phennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr aelodau o'r Cynllun Digidol a fabwysiadwyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2023. Nodwyd bod yr iaith Gymraeg yn elfen ganolog i'r Cynllun ac yn cydnabod yr angen i gael darpariaeth Gymraeg ar gyfer unrhyw feddalwedd sy'n wynebu'r cyhoedd. Ymhelaethwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau darpariaeth Gymraeg ym mhob agwedd arall o waith y Cyngor hefyd. Cyfeiriwyd at yr Asesiad Addasrwydd Digidol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gynnyrch sydd yn cael ei ddatblygu neu ei brynu gan y Cyngor, gan sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn elfen bwysig o'r gofynion hynny.

Manylwyd bod yr Adran wedi canfod pecyn meddalwedd Gymraeg ar gyfer safle hunanwasanaeth Treth y Cyngor newydd, gan nodi nad oedd darpariaeth Gymraeg i gael yn y pecyn safonol. Eglurwyd bod hyn yn galluogi'r Cyngor i ddarparu'r safle yn ddwyieithog i'r cyhoedd pan fydd yn weithredol.

Pwysleisiwyd bod nifer helaeth o staff yr adran yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. Ymhelaethwyd bod 2 aelod o staff yn derbyn hyfforddiant Cymraeg ychwanegol, gan gynnwys cwrs yn Nant Gwrtheyrn yn ddiweddar. Sicrhawyd bod gan bob aelod o staff rhyw fath o sgiliau Cymraeg o fewn yr Adran ac felly pwysleisiwyd bod pob gohebiaeth fewnol o fewn yr Adran yn cael ei rannu yn uniaith Gymraeg.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn cydweithio gydag Archwilio Cymru ar hyn o bryd. Ymhelaethwyd bod yr Adran wedi cynhyrchu 6 pecyn o gyfrifon terfynol 2023/24 ar gyfer Cyngor Gwynedd, Uchelgais Gogledd Cymru, GwE ac Harbyrau Gwynedd. Eglurwyd bod Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau allanol manwl ar yr holl gyfrifon. Mynegwyd balchder bod Archwilio Cymru wedi penodi mwy o archwilwyr Cymraeg yn dilyn ymgyrch recriwtio diweddar, gan olygu bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynegwyd balchder bod yr Adran wedi llwyddo i ddenu hyfforddeion ar gyfer meysydd Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth a'u bod yn datblygu eu gyrfa drwy'r cyfrwng y Gymraeg.

Eglurwyd bod yr uned pensiynau wedi bod yn cydweithio gyda chwmni allanol er mwyn datblygu datganiadau fideo personol blynyddol Cymraeg. Ymhelaethwyd y golyga hyn bod person rhithiol o fewn y fideo yn tywys unigolion drwy ddatganiad blynyddol eu pensiwn, drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabuwyd bod hyn wedi bod yn waith heriol i'r uned.

Nodwyd bod system hunanwasanaeth dwyieithog newydd i'r gronfa bensiwn wedi ei lansio ym mis Ebrill eleni. Mynegwyd balchder mai Cronfa Bensiwn Gwynedd oedd y gronfa gyntaf yng Nghymru i uwchraddio'r safle newydd gyda chymorth cwmni allanol. Cadarnhawyd bod y gwaith hwn yn lledaenu dros Gymru gan fod Cronfa Bensiwn Powys bellach yn ei ddefnyddio a bod cynlluniau pellach i gronfeydd pensiwn eraill ar draws Cymru uwchraddio i'w ddefnyddio.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Esboniwyd yn yr adroddiad bod pob gliniadur sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor yn cael ei ddarparu gyda'r llwyfan weithredu wedi ei sefydlu yn y Gymraeg. Gofynnwyd a yw'r Adran wedi derbyn ystadegau pellach er mwyn gwirio'r nifer sy'n dewis parhau gyda'r gosodiad yn y Gymraeg. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth bod 63% o'r dyfeisiau yn parhau i fod yn y Gymraeg gyda 37% wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i osodiadau Saesneg. Sicrhawyd bod yr holl Benaethiaid Adran yn annog staff i ddefnyddio rhyngwyneb Cymraeg ar ei dyfeisiau ond cydnabuwyd nad oes modd ei wneud yn orfodol.

Llongyfarchwyd yr Adran gan fod 99.5% o staff yr Adran (218 aelod o staff) wedi cwblhau hunanasesiad ieithyddol. Gofynnwyd a oes gan swyddogion unrhyw arfer da y gellir ei rannu gydag Adrannau eraill y Cyngor i  fwy o aelodau staff i'w lenwi. Mewn ymateb i'r

sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Cyfrifeg a Phensiynau) bod trefniadau mewn lle i atgoffa'r Tîm Rheoli i atgoffa aelodau staff yn gyson yn hytrach na cheisio cynnal ymgyrch i gael pob aelod o staff i'w lenwi ar yr un adeg. Cydnabuwyd ei fod yn haws i swyddogion gysylltu gyda holl aelodau staff oherwydd bod gan fwy ohonynt gyfarpar technolegol, o'i gymharu â rhai o adrannau eraill y Cyngor sy'n delio gyda natur gwaith rheng flaen ble nad oes gan weithwyr liniaduron.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

**7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG – ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Rheolwr Datblygu Busnes. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod natur rheng flaen i waith yr Adran a bod gweithwyr yn dod i gyswllt yn aml gyda'r cyhoedd. Pwysleisiwyd disgwylir i'r mwyafrif o staff allu siarad Cymraeg i lefel derbyniol er mwyn gallu delio'n uniongyrchol gydag ymholiadau a darparu profiad gwell i gwsmeriaid o'r herwydd.

Darparwyd rhestr o wahanol hyfforddiant sydd wedi cael ei ddarparu er mwyn cynorthwyo staff i ddatblygu a meithrin ei sgiliau. Mynegwyd balchder hefyd bod yr Adran wedi llwyddo i ddenu prentisiaethau i feysydd peirianneg sifil, trydanwr a thechnegydd fflyd. Pwysleisiwyd bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i'w datblygiad o fewn yr Adran.

Mynegwyd balchder bod 96.6% o staff yr Adran yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. Nodwyd bod hyn yn gryn dipyn o gynnydd ers i'r Adran adrodd i'r Pwyllgor Iaith yn flaenorol a bod gwaith cyson wedi bod o fewn yr Adran er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn cael y cyfle i gwblhau'r holiadur hunanwerthusiad. Ymhelaethwyd bod gwaith yn parhau o fewn pob gwasanaeth ar draws yr Adran er mwyn annog defnydd o'r iaith a magu hyder mewn sgiliau ieithyddol.

Nodwyd bod tri pheiriannydd o wasanaeth YGC yn aelodau ar fwrdd Technegwyr Myfyrwyr Graddedigion Sefydliad y Peirianwyr Sifil Gogledd Cymru. Ymhelaethwyd bod un o'r aelodau yn cadeirio'r grŵp gan adrodd ar faterion technegol i grwpiau eraill ar draws y Deyrnas Unedig yn gyson.

Cadarnhawyd bod cydweithio yn digwydd gyda'r Tîm Categori Amgylchedd a Thîm Cymorth Busnes y Cyngor er mwyn mynychu digwyddiadau ar draws y Sir. Eglurwyd mai'r nod y digwyddiadau yw codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd ar gyfer isgontractwyr lleol i gofrestru ar restr Isgontractwyr y Cyngor neu i ddarparu gwasanaeth drwy fframweithiau'r Cyngor. Ymhelaethwyd bod gwybodaeth yn cael ei rannu fel rhan o Fwletin Cefnogi Busnes y Cyngor sydd yn cael ei rannu yn wythnosau. Gobeithiwyd cynnal digwyddiadau pellach gydag Adra, Adrannau'r Cyngor a mwy o fusnesau yn y dyfodol.

Adroddwyd bod yr adran wedi derbyn adborth cadarnhaol yn ystod Sioe Môn eleni yn ogystal â digwyddiadau gyrfaoedd. Nodwyd bod y rhain yn cynnwys sylwadau am wasanaeth sydd yn cael ei gyflwyno i drigolion yn ogystal â gwaith yr adran i hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Nodwyd bod yr Adran wedi derbyn nifer o gwynion am faterion megis arwyddion uniaith Saesneg. Gofynnwyd pa gamau mae’r Adran yn ei gymryd er mwyn lleihau niferoedd cwynion i’r dyfodol. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod hyn wedi bod yn her yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd bod yr Adran yn cydweithio gyda chontractwyr allanol arbenigol. Pwysleisiwyd bod cytundebau, erbyn hyn, yn pwysleisio’r angen i gyflwyno holl arwyddion ar gyfer safleoedd yn ddwyieithog a bod modd cyflwyno sancsiynau os yw’r amodau’r polisïau yn cael eu torri. Cadarnhawyd nad oes trafferthion wedi codi ers i’r newid hwn gael ei gyflwyno a bod yr Adran yn awyddus i adeiladu ar y gweithdrefnau hyn i’r dyfodol, gan ei fod yn anorfod bydd defnydd o gontractwyr allanol yn parhau oherwydd natur arbenigol agweddau gwaith yr Adran.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi’r sylwadau a dderbyniwyd.**

**8. SESIYNAU YMGYSYLLTU I DRAFOD POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd a thynnwyd sylw’n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod yr adran Addysg yn cynnal cyfres o sesiynau ar hyn o bryd er mwyn trafod y Polisi Iaith Addysg bresennol. Nodwyd bod y sesiynau yn gyfle i drafod syniadau ac awgrymiadau sy’n ymwneud â’r polisi. Ymhelaethwyd ei fod hefyd yn gyfle i ystyried a oes angen diwygio’r Polisi Iaith Addysg bresennol yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn ogystal â nifer o ddatblygiadau polisi ym maes iaith ac addysg yn genedlaethol.

Cadarnhawyd bod yr Adran wedi comisiynu Meirion Prys Jones (ymgynghorydd iaith llawrydd) i fod yn hwylusydd yn ystod yr holl sesiynau.

Adroddwyd bod rhai o’r sesiynau wedi cael eu cynnal eisoes ar draws Gwynedd, er mwyn derbyn mewnbwn gan benaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.

Nodwyd bod Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi eisoes wedi ethol 5 aelod i fynychu’r cyfarfod ymgysylltu sef y Cynghorwyr Elwyn Jones, Jina Gwyrfai, Beth Lawton, Rhys Tudur a Richard Glyn Roberts.

Gofynnwyd i’r Pwyllgor Iaith ethol 5 cynrychiolydd ychwanegol er mwyn ymuno yn y cyfarfod ymgysylltu a gynhelir ar 4ydd Rhagfyr 2024.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cadarnhawyd bod y Cynghorwyr Menna Baines ac Elfed Wyn ap Elwyn wedi nodi eu dyhead i fynychu’r cyfarfod ymgysylltu, wrth gyflwyno eu hymddiheuriadau o’r cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Iaith.

Mynegwyd diddordeb i fynychu’r cyfarfod ymgysylltu gan y Cynghorwyr Cai Larsen, Alan Jones Evans a Meryl Roberts.

**PENDERFYNWYD**

**Ethol y Cynghorwyr Menna Baines, Meryl Roberts, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans ac Olaf Cai Larsen i fynychu sesiwn ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg presennol y Cyngor ar brynhawn y 4ydd o Ragfyr 2024.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:15yb.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 20fed Rhagfyr 2024 |
| **Adran** | Addysg |
| **Awdur** | Rhys Meredydd Glyn |

**1. Pa bolisïau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)**

e.e

*Enw*

***Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg*** *(Blynyddoedd cynnar a dysgu):*
*Mae'r maes hwn yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ac mae mesurau penodol wedi eu llunio i fonitro cynnydd.*

*Crynodeb byr*

*Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.*

Polisïau a chynlluniau strategol perthnasol:

**Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Cyngor Sir Gwynedd:**
Mae CSGA Gwynedd yn adlewyrchu gweledigaeth y Cyngor i greu cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion holl ddysgwyr y sir yn ganolog. Mae'r cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

**Polisi Iaith Addysg Gwynedd:**
Nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Disgwylir i'r ddarpariaeth fod yn addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd -destun hwn disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n newydd ddyfodiaid i'r sir.
Disgwylir hefyd i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal a'u darpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol.

**Strategaeth Genedlaethol Cymraeg 2050- Miliwn o Siaradwyr Cymraeg**:
Fel mae teitl y strategaeth yn awgrymu mae Llywodraeth Cymru am weld nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg yn codi i filiwn erbyn y flwyddyn 2050.

**Fframwaith Genedlaethol y Siarter Iaith:**
Mae rhaglen y Siarter Iaith yn cyfrannu at Cymraeg 2050 drwy anelu i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg ymhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r Siarter Iaith yn rhan o gyfres o raglenni Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

**Cwricwlwm i Gymru:**
Mae rhaglen y Siarter Iaith yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru gydag egwyddorion y rhaglen yn cefnogi'r pedwar diben er mwyn creu dygwyr uchelgeisiol, cyfranwyr mentrus, dinasyddion egwyddorol ac unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel

aelodau gwerthfawr o'u cymdeithas. Mae'r Siarter yn rhan integredig o Gwricwlwm i Gymru, yn pontio rhwng elfennau o'r cwricwlwm gan ychwanegu at brofiadau addysgiadol ynghyd â chyfoethogi profiadau allgyrsiol ac amser chwarae anffurfiol.

**Bil Y Gymraeg ac Addysg:**

Bwriad Llywodraeth Cymru yw rhoi ar y Llyfr Statud ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datblygu ymhellach agweddau ar Addysg Gymraeg. Nodir yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth y bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf hyn a bydd rheidrwydd statudol ar i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y twf hwn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Wedi ei gynnwys yn y ddeddf mae saith Nod Llesiant, pwrpas y nodau hyn yw sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at gyflawni'r un nodau. Un o'r nodau hynny yw gweithio tuag at Gymru sydd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

**Gwynedd Yfory**: ***Sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer Ieuenctid yn gweithio ar draws y sir a pha ddeilliannau y mae'n eu cyflawni i bobl ifanc.***

**Prosiect ar y Cyd efo'r Urdd**

Mae prosiect ar y cyd rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd a'r Urdd wedi'i anelu at gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cydweithrediad hwn yn cynnwys cyflogi Swyddog Ieuenctid ar y cyd, sy'n trefnu gweithgareddau trwy'r Gymraeg yn ystod ac ar ôl oriau ysgol. Nod hyn yw annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac anffurfiol, gan helpu i gryfhau'r defnydd o'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth

Yn ogystal, mae Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed i ddatblygu sgiliau iaith, personol, cymdeithasol ac addysgol mewn llefydd nad yw'r defnydd o Gymraeg mor eang. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar iechyd a lles, datblygiad sgiliau a chynhwysiant cymunedol, gyda'r bwriad o helpu pobl ifanc i ddod yn oedolion hyderus a hunangynhaliol.

-5 Aelwyd Gymunedol wedi eu datblygu yn Felinheli, Bangor, Caernarfon, Ardudwy a Bala

-Yn rhedeg sesiynau amrywiol tu allan i amserlen yr ysgol mewn 6 o ysgolion uwchradd y sir.

**Gigs Bandiau Cymraeg**

Wedi cydweithio gyda fforymau llais pobl ifanc a Hunaniaeth i drefnu gigs bandiau Cymraeg. Mae'r digwyddiadau yma wedi cynnig llwyfan i fandiau ifanc i gyflwyno eu cerddoriaeth i gynulleidfaoedd ehangach, gan feithrin diwylliant cerddorol bywiog i bobl ifanc lleol ac i bobl ifanc cael y cyfle i fwynhau bandiau mwyaf Cymru yn canu yn eu cynefin.

3420 o sesiynau wedi eu trefnu trwy gyfrwng y Gymraeg gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Ystod eang o weithgareddau gan gynnwys clybiau ieuenctid cymunedol, alldeithiau, tripiau achlysurol, gweithdai mewn ysgolion, gwaith mewn grwpiau bach, gwaith un i un a darpariaeth sydd wedi ei gomisiynu i bartneriaid.

· Pa fath o ddata sydd wedi'i gasglu am y gweithgareddau?

- 19625 o gyfranogiadau.

- 1018 o achrediadau wedi eu cwblhau
- 98% yn nodi eu bod wedi mwynhau y sesiynau
- 97% yn nodi eu bod yn teimlo bod eu llesiant wedi gwella.
- 97% wedi dysgu sgil/ profiad newydd.
- 97% am barhau i fynychu.

· Adrodd ar ddeilliannau'r Gwasanaeth Ieuenctid

- yn fisol i Gyngor Gwynedd ar y data a amlinellwyd uchod.
- yn flynyddol i pwyllgorau craffu y cyngor
- i Lywodraeth Cymru pob 6 mis, drwy rhoi diweddariad ar y gwasanaeth.
- Yn derbyn £20,000 yn flynyddol gan Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ar gynyddu darpariaeth iaith Gymraeg i bobl ifanc.

· Iaith a lleoliad y gweithgareddau

- Pob gweithgaredd yr ydym yn ei gynnig yn Gymraeg/ dwyieithog.
- Gweithiwr Ieuenctid wedi ei leoli yn mhob un ysgol uwchradd ac arbennig ac yn gweithio drwy bontio i'r gymuned.
- Prosiectau cymunedol yn cael eu cynnal ar draws Gwynedd

· Nifer o bobl ifanc a fynychodd (neu amcangyfrif ble nad oes ystadegau ar gael)

- 19625 o gyfranogiadau ar hyd y flwyddyn

**Gwynedd Gymraeg:**

***Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant***

Bellach mae gwaith adeiladu a moderneiddio Gwedd 1, gwerth 1.1. miliwn sef unedau trochi Pontio Cynradd/Uwchradd wedi ei gwblhau a bydd Uned Drochi Tywyn, yr olaf ohonynt yn agor ei drysau i'r dysgwyr ar yr 20fed o Ionawr 2025.Mae'n ddarpariaeth yma yn sicrhau fod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid i'r sir yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl o fewn eu rhanbarth, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf.
Yn ogystal mae'r gwaith adeiladu a moderneiddio'r unedau trochi cynradd gwerth 1.1.miliwn hefyd yn mynd rhagddo ar amser a bydd yr uned newydd yn ysgol Cymerau, Dolgellau a Maesincla yn agor i'r dysgwyr ddechrau tymor yr haf 2025.Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau'r cyfle gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Prosiectau a chynlluniau eraill

***Cyfarfodydd Ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg Gwynedd:***

Yn ystod tymor y Gaeaf 2024 bu cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg presennol Cyngor Gwynedd. Comisiynwyd Meirion Prys Jones, ymgynghorydd iaith llawrydd i hwyluso'r cyfarfodydd. Mae Meirion yn adnabyddus am ei waith ym maes cynllunio ieithyddol ac wedi cynghori Awdurdodau Addysg yn genedlaethol a rhyngwladol ac hefyd wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i ran-ddeiliaid drafod, ac i gasglu syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â'r polisi ac i ystyried a oes angen ei ddiwygio yng ngoleuni canlyniadau Cyfrifiad 2021 a nifer o ddatblygiadau polisi ym maes

iaith ac addysg ar y lefel genedlaethol. Cynhaliwyd 20 o gyfarfodydd hefo croes doriad o ymgysylltwyr; plant cynradd ac uwchradd, disgyblion Ysgolion Arbennig, Penaethiaid ar draws y sectorau a'r rhanbarthau, Aelodau Etholedig o blith Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Iaith ynghyd â Chynrychiolaeth o Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd a swyddogion y Comisiynydd Iaith. Yn fuan yn y flwyddyn newydd bwriedir llunio polisi drafft a strategaeth i'w cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Craffu.

**Gwerthuso'r Gyfundrefn Addysg Drochi**

Mae'r Gyfundrefn Drochi bellach wedi cwblhau cylch blwyddyn a dau dymor ers ei sefydlu yn Ionawr 2023. Amserol felly oedd gwerthuso'r newid gan roi ystyriaethau hefyd i farn rhanddeiliaid trwy gynnal Astudiaeth Effaith. Comisiynwyd Prifysgol Bangor i gynnal y gwerthusiad.

Nod yr astudiaeth achos gynhwysfawr hon oedd gwerthuso effaith a chraffu ar ddarpariaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi bresennol i weld os ydyw yn cyflawni'r addewid ac yn rhoi'r sylfaen angenrheidiol i ddisgyblion yng Ngwynedd i gaffael y Gymraeg wrth gychwyn ar eu taith ieithyddol i ddod yn siaradwyr newydd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu â rhanddeiliaid e.e. penaethiaid ac athrawon prif lif; athrawon yr unedau trochi, rhieni a dysgwyr. Treuliwyd amser hefyd yn arsylwi ar y dysgwyr yn yr unedau trochi ac yn ôl yn yr ysgolion ar y dyddiau pontio ar ddechrau ac ar ddiwedd y cwrs trochi.

Cyflwynir adroddiad derfynol y Gwerthusiad i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ystod Tymor y Gwanwyn 2025. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnig tystiolaeth ymchwil gadarn ar effeithlonrwydd y model trochi yng Ngwynedd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer datblygiadau a gwelliannau posib yng Ngwynedd a thu hwnt ar gyfer y dyfodol.

**Strategaeth Addysg**

Pwrpas y strategaeth yw amlinellu uchelgais ar gyfer addysg yng Ngwynedd dros y ddegawd nesaf. Un cyfle yn unig y mae plentyn yn ei gael i dderbyn addysg ac mae'n gwbl allweddol bod y system addysg yng Ngwynedd yn galluogi ein plant i fod yn beth bynnag y mae nhw'n dymuno fod. Ni ddylai ein cyfundrefn addysg ffrwyno uchelgais ein plant. Bydd y strategaeth yn ymgorffori blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ac yng nghyd destun y Gymraeg gan sicrhau fod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol, a thrwy gefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.

**2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?**
*(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)*

- Gweithredu Argymhellion yn dilyn y broses ymgysylltu ynglŷn â'r Polisi Iaith.
- Gweithredu Argymhellion Adroddiad Terfynol Gwerthusiad Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd.

**3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

Mae ein prosiect TGCh rhithiol Aberwla yn esblygu'n gyflym a bellach yn bentref sy'n llawn o leoliadau sy'n cynnig gweithgareddau amrywiol i'r dysgwyr wrth iddynt ymarfer ac atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith Gymraeg. Ceir fferm yn cynnwys Cae Glampio, archfarchnad, garej, siop gajets, Caffi, Canolfan Hamdden a Llyfrgell ac ar hyn o bryd rydym yn datblygu Coedwig a Gorsaf

Dywydd. Mae'r adnodd arloesol hwn yn cael ei ddefnyddio yn ein canolfannau trochi a'r plant wrth eu bodd yn ei ddefnyddio ac yn dysgu trwy chwarae. Yn ogystal rydym yn ei dreialu yn yr uned drochi yn Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam, uned drochi Glan Clwyd, Unedau trochi uwchradd Môn, Rhondda Cynon Taf, Sir, Gâr, Bro Morgannwg a Cheredigion.

Dyma ddarpariaeth addysg drochi gyfoes o ansawdd uchel, apelgar i ddysgwyr ddatblygu ac ymarfer eu medrau siarad, gwrando a darllen yn y Gymraeg. Mae'n cynnig cyfle i hwyrddyfodiaid gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, gan osod her i ymestyn y dysgwyr mwy abl a thalentog ac mae'n adnodd sy'n pontio dysgwyr cynradd ac uwchradd. Yn ddi-os mae'r adnodd hwn yn meithrin agweddau iach tuag at y Gymraeg fel iaith bob dydd a iaith bob dim. Mae'n normaleiddio'r Gymraeg ar blatfform Digidol cyffrous.

**4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?**
**e.e.**
**Blynyddoedd cynnar**

1. *Data cyrhaeddiad y CSGA o ran nifer y lleoliadau gofal plant, a nifer plant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.*
2. *Nifer cylchoedd Ti a Fi, grwpiau Rhiant a Phlentyn sydd yn cael eu cefnogi/cynnal.*
3. *Nifer y gweithgareddau sydd yn cael eu targedu yn benodol at deuluoedd ifanc/rhieni a babanod gan wasanaethau'r Cyngor.*
4. *Nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu trefnu gan y fenter iaith.*
5. *Nifer ymgyrchoedd rhannu adnoddau a gwybodaeth.*

**Dysgu**

1. Ystadegau monitro CSGA
2. Nifer staff y Cyngor sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau
3. Nifer prentisiaethau sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor
4. Nifer cyfleoedd hyfforddi/achrediadau sydd yn cael eu cynnig gan y gwasanaeth ieuenctid.

**Gwaith a gwasanaeth**

1. Nifer busnesau sydd yn derbyn cymorth ariannol drwy gynllun Arfor
2. Nifer staff sydd yn derbyn cefnogaeth i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau
3. Nifer staff sydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau cyfeillio/pencampwyr

**Y gymuned**

1. Nifer gweithgareddau wedi eu cynnal gan wasanaethau'r Cyngor a'r fenter iaith ar gyfer gwahanol grwpiau
2. Nifer mentrau cymunedol sydd yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Adfywio ac Economi

**Ymchwil a thechnoleg**

1. Nifer prosiectau ymchwil sydd wedi eu cynnal gan y Cyngor, neu eu comisiynu gan y Cyngor

***Unrhyw ddata arall perthnasol***

Ym maes Blynyddoedd Cynnar mae targed penodol o fewn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-27 ar gyfer 'Sicrhau darpariaeth Iaith Gymraeg/Dwyieithog i holl blant y Sir'.

Mae Adroddiad Cynnydd 2024 yn nodi, yn unol â'r wybodaeth mae DEWIS yn ei gadw o ran iaith ein darpariaeth, bod 47.49% o'n darpariaeth yn uniaith Gymraeg gyda 47.10% yn darparu'n ddwyieithog a 3.86% yn darparu yn Saesneg gydag elfennau dwyieithog.
(Mae'r wybodaeth isod yn cyfri'r holl wasanaeth mae darpariaethau wedi ei nodi ar Dewis- mi all un ddarpariaeth fod yn cynnig mwy nag un gwasanaeth e.e. cylch meithrin a chlwb ar ôl ysgol).

Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â chanran y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd

| Ardal | Nifer Cylchoedd Meithrin | Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg |
|---|---|---|
| Arfon | 28 | 99% |
| Dwyfor | 18 | 100% |
| Meirionydd | 19 | 100% |

Tymor yr Haf 2024 – 388 o blant 3 oed yn derbyn eu hawliad Addysg Feithrin mewn 51 lleoliad cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.

Mae'r 16 lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg o fewn y Sir i gyd yn gyfrwng Cymraeg
Data dynodiad ieithyddol y darpariaethau gofal plant eraill yn y Sir:-

| Darpariaeth | Cymraeg | Dwyieithog | Saesneg |
|---|---|---|---|
| Meithrinfeydd | 13 | 5 | 1 |
| Cylchoedd Meithrin / *Playgroup*- sydd ddim yn darparu AF | 7 | 1 | |
| Gwarchodwyr | 37 | 5 | 10 |
| Clybiau ar ôl Ysgol/Gwyliau | 10 | 2 | |

Mae 98.21% o blant 5 oed y sir yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogaeth ymarferol effeithiol mewn lle i gynyddu'r ddarpariaeth mewn un ysgol gynradd benodol er mwyn gwireddu'r targed o 100% o fewn oes y CSGA. Rydym yn defnyddio cyfran o grant trochi hwyr i gyflogi athrawes brofiadol i gydweithio hefo staff a dysgwyr dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 mewn ysgol benodol ym Mangor i fodelu dulliau trochi llwyddiannus a chydweithio hefo staff y Cyfnod Sylfaen i fapio datblygiad ieithyddol Cymraeg y dysgwyr ar hyd y continwwm iaith. Mae'r athrawes hefyd yn cefnogi mewn dwy ysgol arall ym Mangor i wreiddio dulliau trochi cynnar yn y Derbyn. Yn yr ysgol drosiannol mae 25 o ddysgwyr y dosbarth Derbyn ac 13 o flwyddyn 1 wedi cael mynediad at ymyrraeth drochi gynnar.
Yn ôl data CYBLD 2024 mae 67 o ddysgwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig 5 oed wedi'u cofrestru yn Ysgolion Gwynedd. Mae 58 ohonynt yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sef 87%. Mae gweddill y garfan hon sef 9 yn mynychu'r ysgol Gynradd sydd yn y categori trosiannol ac yn derbyn cyfran o'u haddysg trwy'r Gymraeg dan nawdd grant Trochi Hwyr Llywodraeth Cymru. Dyma'r ail flwyddyn ers cychwyn ar y broses o gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol.

Roedd 1290 o ddysgwyr yng ngharfan blwyddyn 6 ar draws ysgolion Gwynedd yn trosglwyddo i'r uwchradd ym Medi 2023. Mae'r tabl isod yn nodi asesiadau athrawon o garfannau iaith sy'n crynhoi lefelau a medrau ieithyddol y dysgwyr ar draws y llinyn llafar, darllen ac ysgrifennu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | disgyblion hyfedr yn y ddwy iaith | 825 | 64% |
| B | disgyblion cryfach eu Cymraeg na'r Saesneg | 113 | 8.8% |
| C1 | disgyblion cryfach eu Saesneg na'u Cymraeg | 275 | 21.3% |
| C2 | disgyblion cyfyng eu Cymraeg - dysgwyr/hwyrddyfodwyr | 55 | 4.2% |
| CH | disgyblion sy'n gyfyng eu defnydd o'r ddwy iaith | 22 | 1.7% |

Gosodwyd carreg filltir yn adroddiad blaenorol y CSCA i gynyddu'r nifer o ddysgwyr yng ngharfannau A a B. Gwireddwyd y flaenoriaeth honno eleni a gwelir o'r tabl uchod fod 74.8% wedi eu hasesu yn hyfedr ddwyieithog. Mae hyn yn gynnydd o 7.8% ers 2022-2023 pan oedd y ddwy garfan yn 67%.

Mae 41% o blant Clwstwr Bangor yn syrthio i garfan A sydd yn gynnydd o 2% a 41% yng ngharfan C1 sydd yn ostyngiad o 6%. Mae prosiectau gloywi ac adennill hyder wedi digwydd o fewn y clwstwr yn targedu dysgwyr blwyddyn 5 a 6, i godi safonau a hyder y dysgwyr yn y Gymraeg. Darperir cefnogaeth ychwanegol rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025 i ysgolion dalgylch Bangor a Tywyn i ffocysu ar eu darpariaeth Gymraeg yng nghyd destun categoreiddio er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth honno ac arfogi'r gweithlu i ddefnyddio dulliau trochi yn llwyddiannus hefo'r dysgwyr sy'n cyrraedd yr ysgolion hefo'u rhieni yn mudo i weithio i'r brifysgol, yr ysbyty a chartrefi gofal a nyrsio.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024 darparwyd cefnogaeth a mynediad i 195 o ddysgwyr blynyddoedd 2-9 ar gwrs trochi dwys 10 wythnos yn yr unedau trochi ar draws y tri rhanbarth o fewn y sir sydd yn gyfartaledd o 65 disgybl bob tymor. Yn ogystal darparwyd cefnogaeth ôl ofal i 101 o ddysgwyr yn ystod y flwyddyn addysgol mewn 44 o ysgolion prif-lif. Mynychodd 42 o ddysgwyr blynyddoedd 7,8 a 9 gwrs byr Ad-ennill hyder dros 3 wythnos yn yr ysgolion uwchradd sy'n lletya'r unedau trochi Pontio Cynradd/Uwchradd. Dyma'r tro cyntaf i ni fel cyfundrefn gynnig y cwrs hwn. Gan fod yr adborth yn gadarnhaol, byddwn yn ail redeg y cwrs ym mis Medi 2025. Rydym yn blaenoriaethu mynediad i'r cwrs Ad-ennill hyder i ddysgwyr sydd wedi eu hasesu fel carfan C1 gan athrawon ysgolion cynradd.
Rydym yn gweithio'n agos hefo menter Iaith Hunaniaith i gynnal cyfarfodydd penodol mewn ardaloedd targed e.e. Pen Llŷn i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chynnwys rhieni hwyr ddyfodiaid mewn gweithgareddau cymunedol ynghyd â'u trochi yn y diwylliant Cymreig sydd yn yr ardal. Trefnwyd noson o hwyl yn y neuadd gymunedol ym Motwnnog, a chomisiynwyd Anni Llŷn i gynnal gweithdai ymwybyddiaeth iaith hefo'r dysgwyr yn yr ysgol a rhannwyd hynny wedyn ymysg y rhieni. Gwahoddwyd disgyblion yr ysgol i berfformio. Roedd hwn yn ddigwyddiad cymunedol cynhwysol iawn. Y bwriad yw defnyddio'r model cydweithio hwn mewn cymunedau cyffelyb yn y dyfodol. Mae cydweithio yn digwydd hefo Menter Iaith Bangor hefyd, ymysg cymunedau o gefndiroedd ethnig i'w cynnwys yn y gweithgareddau cymunedol Cymraeg a Chymreig er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

Roedd 1303 o ddysgwyr yn y cohort Blwyddyn 11 yn ysgolion uwchradd Gwynedd Haf 2024. Cesglir data darpariaeth Gymraeg manwl yn unigol gan bob un o'r ysgolion uwchradd yn y sir.

Dyma'r data cyfredol yn erbyn y tri dangosydd o ran cymwysterau Cymraeg ar ddiwedd y cyfnod oed statudol yn 16 oed – syn cynnwys pob disgybl yn y sir:

| DANGOSYDD O RAN DEILLIANT 4 CSCA | CANRAN |
|---|---|
| Canran disgyblion Bl.11 sy'n astudio o leiaf 3 phwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 73.6% |
| Canran disgyblion Bl.11 sy'n astudio o leiaf 5 phwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 73.2% |
| Canran disgyblion Bl.11 sy'n sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 84.2% |
| Canran disgyblion Bl.11 sy'n sefyll arholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith | 14.35% |
| Heb gofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg | 1.5% |

Mae 79 o ysgolion Gwynedd yn rhan o'r Siarter Iaith ac 1 ysgol yn gwneud Cymraeg Campus ac yn gweithio tuag at y wobr efydd y flwyddyn hon. Mae llawer o drafodaethau cenedlaethol wedi digwydd ac adnoddau a dogfennau newydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer ail lansio'r siarter yn mis Medi. Bydd 13 o ysgolion Gwynedd dan arweiniad Cydlynydd Siarter Iaith a Swyddog Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd yn cael eu dilysu ar gyfer gwobrau Efydd, Arian neu Aur yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025.

Mae pob disgybl ADY/AAA yn derbyn mewnbwn trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn yr Awdurdod. Mae pob aelod o staff sydd yn darparu o'r Gwasanaeth Canolog ADY a CH yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog.

## 5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Mae man cychwyn ein gweithlu addysg o ran y Gymraeg yn dda gyda 97.6% o'r athrawon cynradd a 86% o athrawon uwchradd yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn rhannu gwybodaeth yn gyson gyda'n hysgolion am y ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer gwella sgiliau Iaith Gymraeg y gweithlu. Mae ein dwy ysgol uwchradd drosiannol yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt trwy Ddigwyddiad Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae Athrawes Hyrwyddo'r Gymraeg yn Ysgol Friars yn cynnal gweithgareddau cynyddu hyder y Gymraeg gyda grwpiau o staff yn yr ysgol.

Fel yr adroddwyd yn erbyn Deilliant 6 mae gweithlu arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gael yn y sir i ymateb yn llawn trwy'r Gymraeg wrth gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u teuluoedd. Mae'r awdurdod ac ysgolion uwchradd y sir wedi bod yn rhan greiddiol o ddatblygu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar y cyd gyda CYDAG a CBAC ar y cymwysterau newydd. Ac mae ysgolion y sir yn rhan o fforwm newydd CYDAG y Gogledd sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg ar draws Gogledd Cymru.

Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda Meinir Ebbsworth a'r ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o ran y gefnogaeth y gellid ei chynnig yn benodol ac yn arbenigol i Wynedd. Mae'r ysgolion trosiannol eisoes wedi ymgysylltu gyda'u darpariaeth bresennol.

Yng nghyd destun Dynodiadau Iaith yr Adran Addysg mae 95.4% o staff yr Adran sydd wedi cwblhau hunanasesiad iaith yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd. Fodd bynnag nid yw nifer helaeth o staff Adran Arlwyo a Glanhau ysgolion wedi cwblhau'r hunanasesiad oherwydd diffyg mynediad hylaw at yr holiadur ar Hunanwasanaeth y Cyngor.

Data Staff yr Adran Addysg:
Nifer wedi cwblhau'r holiadur iaith: 1468 (44.43%)
Nifer sydd heb gwblhau'r holiadur iaith: 1836 (55.57%)

Nifer sydd wedi derbyn asesiad iaith (wedi cwblhau'r holiadur neu gael asesiad syml gan reolwr llinell): 1496 (45.28%)
Nifer sydd heb dderbyn asesiad iaith: 1808 (54.72%)

Data ar gyfer staff sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi (ar gyfer y rhai gydag asesiad iaith yn unig):
Yn cyrraedd: 1361 (91%)
Ddim yn cyrraedd: 135 (9%)

**6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.**

Heriau recriwtio ar gyfer staff yn y maes gofal plant ar hyn o bryd, ac mae angen cadw golwg ar lefelau sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn y cyfnod nesaf i osgoi unrhyw lithro mewn safonau
Heriau penodi Cydlynwyr Iaith mewn rhai dalgylchoedd – Cydlynwyr presennol yn rhoi'r gorau i'r rôl mewn dwy ddalgylch, ac angen penodi olynwyr.

Lefel staffio o fewn y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn bryderus o ran gallu cynnig y ddarpariaeth yma trwy Gyfrwng y Gymraeg i lefel angenrheidiol.

Mae'r sefyllfa heriol o ran recriwtio athrawon arweinwyr ac athrawon, yn arbennig mewn rhai meysydd arbenigol, yn her barhaus.

Yn yr un modd mae'r her o recriwtio a chadw cymorthyddion ar draws ein hysgolion yn parhau'n amlwg.

Mae Cyllid yn her enfawr i ysgolion. Mae toriadau yn anochel yn golygu lleihau nifer staff a hynny yn anochel yn cael effaith ar y Gymraeg.

Diffyg mynediad hylaw i staff Arlwyo a Glanhau at System Hunanwasanaeth y Cyngor- diffyg data cyflawn yn golygu nad oes gennym adnabyddiaeth lawn o hyfedredd neu anghenion ieithyddol y gweithlu penodol hwn o fewn yr Adran.

| |
|---|
| Ar neges gadarnhaol mae Cogyddes un ysgol gynradd yn Arfon wedi ei derbyn ar gwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn lle trwy'r Ganolfan Dysgu Genedlaethol ac mae'r Adran Arlwyo wedi cytuno i dalu ei chyflog tra bydd hi'n mynychu'r cwrs. |

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2024:
Adran Addysg Cynllun Hybur Gymraeg.pdf

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Adroddiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 - 2033 |
| **Dyddiad** | 28 Ionawr 2025 |
| **Adran** | Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Awdur** | Ian Jones, Pennaeth |

**1. Pa bolisïau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)**

Mae gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol bolisïau, cynlluniau strategol, prosiectau a ffrydiau gwaith penodol sydd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith.

Gweler isod enghreifftiau o sut mae'r Adran yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith:

**Polisïau a chynlluniau strategol perthnasol:**

**Polisi Caffael** - Mae Polisi Caffael Cynaliadwy a Strategaeth Caffael eisoes yn bodoli ac yn cynnwys gofynion Iaith. Bydd y polisi a'r strategaeth yn cael eu diweddaru yn ystod 2025.

**Cymraeg 2050 – 'Miliwn o siaradwyr'** – Mae Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn nodi dull hirdymor y Llywodraeth o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae tri prif thema, sef 'cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg', 'cynyddu defnydd o'r Gymraeg' a 'creu amodau ffafriol'. Rydym yn gweithio yn gyson tuag at geisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – Mae 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o brif nodau llesiant y Ddeddf.

**Cynllun Cydraddoldeb 2024 – 2028 -** Pwrpas y cynllun cydraddoldeb yw lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb a phobl sydd ddim yn rhannu un o'r nodweddion. Mae amcanion y cynllun yn cyffwrdd â phob maes gwaith o fewn y Cygor, ac yn rhoi fframwaith yn ei le i wella tegwch o fewn y sefydliad ac i sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl anghenion. Mae'r Gymraeg yn ganolog i holl agweddau'r cynllun.

**Prosiectau Cynllun y Cyngor 2023 - 2028**

- **Cadw'r Budd yn Lleol** - Mae prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn ceisio uchafu'r budd lleol a thrwy hyn yn hyrwyddo a datblygu'r Iaith. Mae bosib i ni asesu tendrau ar sail hyn ac mae mesurau iaith wedi'u datblygu. Mae'r mesurau yn cynnwys asesiad o swm ariannol ac adnodd amser y mae cwmnïau yn ei gynnig wrth gyflawni gwaith.

Mae'r Uned hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Iaith i adnabod cwmnïau i'w targedu ar gyfer cynllun 'Cynnig Cymraeg' Comisiynydd y Gymraeg.

- **Gwynedd Gymraeg** - Mae 'Gwynedd Gymraeg' yn ffrwd gwaith o Gynllun y Cyngor, gyda'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar brosiectau i 'Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd'. Mae'r holl brosiectau dan Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033 yn cyfrannu at y gwaith. Mae gwaith Strategaeth Iaith Gwynedd wedi ei rannu yn 5 maes gweithredu, ac rydym hefyd yn dangos sut mae amcanion ein strategaeth yn cyfrannu at 3 prif faes strategaeth Cymraeg 2050.
- **Ymchwil** - Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn dadansoddi a rhannu gwybodaeth am sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y sir, er mwyn llywio penderfyniadau a pholisïau ar draws y Cyngor gan gynnwys Cynllun y Cyngor.

**<u>Blaenoriaethau Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 - 2028</u>**

- **Gweithlu Bodlon a Iach** – Mae Gweithlu Bodlon ac Iach yn un o flaenoriaethau ffrwd gwaith Cynllun Ffordd Gwynedd. Mae Cynllun Llesiant staff newydd ei fabwysiadu fel rhan o'r ffrwd gwaith hwnnw ac mae'r gynhaliaeth llesiant sydd ar gael i staff yn gwbl ddwyieithog gyda phwyslais mawr ar yr iaith yn y broses caffael ar faterion fel Gwasanaeth Cwnsela staff ayb.

- **Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent –** Mae Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent yn ffrwd gwaith Cynllun Ffordd Gwynedd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddenu a chadw staff yn y tymor hir, trwy sicrhau bod yna gyflenwad digonol o staff ar gael i ddiwallu anghenion gwasanaethau , ac yn benodol felly staff sydd yn gallu'r Gymraeg.

- **Cynllun Digidol y Cyngor**: Mae Cynllun Digidol y Cyngor yn rhan o ffrwd gwaith blaenoriaeth Trawsnewid Digidol Cynllun Ffordd Gwynedd. Mae gwaith ar wybodaeth a data yn digwydd gan y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth ac mewn cydweithrediad ag Adrannau eraill, i hwyluso mynediad i ddata a gwybodaeth y tu mewn a thu allan i'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth <u>am</u> y Gymraeg a <u>thrwy gyfrwng</u> y Gymraeg.

**<u>Prosiectau a chynlluniau eraill gan wasanaethau Adran Gwasanaethau Corfforaethol:</u>**

- **Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth** – Mae'r gwasanaeth mewn trafodaethau cyson gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ynglŷn â'u cynlluniau i (o bosib) beidio cynnal Cyfrifiadau i'r dyfodol ond i gasglu data mewn ffyrdd eraill, gan geisio dylanwadu i wneud yn siŵr y bydd (o leiaf) gwybodaeth debyg i'r Cyfrifiad yn parhau i fod ar gael.
- **Gwasanaeth Caffael** – Mae cydymffurfio gyda'r Safonau Iaith presennol yn heriol ynddo'i hun, mae ceisiadau am gefnogaeth i dendro yn cyrraedd funud olaf a mae cael pecyn dwyieithog yn anodd o fewn amserlen dynn.

- **Gwasanaeth Cefnogol** – Mae'r modiwlau i staff o fewn y system Hunanwasanaeth staff yn cael eu datblygu yn ddwyieithog. Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn disgwyl ymateb gan y DBS yn Lerpwl ynglŷn â phryd fydd y ffurflen gais ar-lein wedi ei datblygu yn y Gymraeg.

- **Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru –** Croesewir pob seremoni priodas / partneriaeth sifil yn ddwyieithog hyd yn oed os yw'r cyplau yn uniaith Saesneg.

  Rhoddir y cynnig ar gychwyn pob cofrestriad (genedigaeth a marwolaeth) os ydynt am gofrestru yn ddwyieithog.

  Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi pwyso ar Llywodraeth Cymru sawl blwyddyn yn ôl i newid y ffordd o gynnal asesiad wyneb yn wyneb ar gyfer bathodyn glas yn hytrach nag anfon cyfieithydd i'r asesiad, mae'r asesydd yn cynnal yr asesiad yn Gymraeg (os mai dyma yw dewis y cwsmer).

  Mae newidiadau wedi bod i Ddeddfwriaeth Cofrestru Marwolaeth ym mis Medi 2024, ble mae gan y crwner y gallu i gofrestru marwolaethau – mae'r templed yma wed'i ddarparu gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ond ar gael yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd. Mae Crwner a Chofrestryddion Gwynedd wedi gofyn am daflen ddwyieithog er mwyn gallu cofrestru yn ddwyieithog.

  Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru yn cydweithio gyda'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i brofi y system DRS (Digital Registration System) newydd fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod y flwyddyn.

  Mae system awtomeiddio wedi'i ddarparu yn ddwyieithog yn Galw Gwynedd – Cymraeg yn gyntaf / Saesneg wedyn er mwyn hyrwyddo'r iaith i gwsmeriaid.

- **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant** – Meddyg Iechyd Galwedigaethol – mae hwn yn faes arbenigol iawn lle mae argaeledd meddygon yn brin ond mae cael meddyg cymwys yn y maes sy'n siarad Cymraeg wedi profi yn amhosibl hyd yma. Mae gwaith arloesol yn digwydd i ganfod olynydd i'r meddyg presennol trwy gydweithio gyda meddyg teulu lleol a rhoi profiadau cysgodi iddi tra bydd yn cymhwyso yn y maes. Mae hyn yn rhoi cynllun olyniaeth i ni pan fydd ein meddyg presennol di-Gymraeg yn ymddeol o fewn y flwyddyn.

  Mae gwaith yn digwydd ar y cyd hefo IOSH (prif sefydliad proffesiynol y maes Iechyd a Diogelwch yn genedlaethol) i fod yn achredu cwrs Rheoli'n Ddiogel yn y Gymraeg a Chyngor Gwynedd fydd yr unig sefydliad yng Ngogledd Cymru i'w gynnig yn y Gymraeg. Mae'r gwaith yma'n digwydd ar y cyd gyda Phrifysgol Aberystwyth.

- **Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** - <u>Cyfryngau cymdeithasol</u> – defnyddir un cyfrif lle cyhoeddir negeseuon yn y ddwy iaith. Mae hyn yn golygu fod ein dilynwyr i gyd yn gweld ein negeseuon yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Cyhoeddir pob neges mewn ffordd sy'n golygu mai'r neges Gymraeg sydd ar frig y ffrwd.

Fideos - Rydym yn cynhyrchu ein clipiau fideo cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg ac yn ychwanegu is-deitlau Saesneg er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r iaith.

Y wasg a'r cyfryngau - Rydym yn darparu atebion i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyfryngau Cymreig. Gan fod ein swyddogion, Arweinydd ac Aelodau Cabinet yn siaradwyr Cymraeg, rydym yn darparu nifer fawr o gyfranwyr ar gyfer y cyfryngau iaith Gymraeg.

Cyfathrebu efo staff - Mae Cyngor Gwynedd yn flaengar o ran sut ydym yn cyfathrebu efo staff ac yn helpu i normaleiddio'r iaith drwy dechnoleg, e.e. ein defnydd o'r grŵp Facebook staff / sesiwn byw'r Prif Weithredwr. Mae'r dudalen gartref a'r adran newyddion ar y fewnrwyd a'r cylchgrawn staff yn uniaith Gymraeg, gyda chopi Saesneg ar gael ar ofyn.

Gwefan y Cyngor - Mae'r holl gynnwys a gwasanaethau ar-lein ar wefan ac ap Cyngor Gwynedd yn ddwyieithog ac rydym yn cymryd camau rhagweithiol i annog defnyddwyr i ddefnyddio'r wefan yn Gymraeg.

Ymgysylltu Cyhoeddus – Cynhelir pob ymarferiad ymgysylltu yn gyfan gwbl ddwyieithog ac mae unrhyw grwpiau ffocws, cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio ac ati yn cael eu cynnal gan hwyluswyr a swyddogion dwyieithog.

- **Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith** - Ymwybyddiaeth iaith - Yn ogystal â'r sesiynau mandadol ar-lein, mae ymdrech wedi'i wneud i gynnal sesiynau wyneb yn wyneb ar ymwybyddiaeth iaith i gynghorwyr a staff. Cynhaliwyd sesiwn i 16 o gynghorwyr i sôn am gynlluniau a phrosiectau sy'n cyfrannu at hybu'r Gymraeg, rôl a chyfrifoldebau statudol y Cyngor o safbwynt hybu'r Gymraeg a rôl aelodau i ddylanwadu o fewn cymunedau. Mae cyflwyniadau ar y gweill i reolwyr hefyd o ran polisi iaith, sesiynau wyneb yn wyneb wedi'u cynnal gyda'r Adran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd sesiwn i reolwyr cyllid yn cael ei gynnal dros y misoedd nesaf, a sesiwn ar-lein yn cael ei ddatblygu fydd ar gael ar y fewnrwyd staff.

  Fforwm Iaith Gwynedd - Uned Iaith Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Fforwm Iaith Gwynedd gyda thua 20 sefydliad yn gweithredu er budd y Gymraeg, gan gyfarfod yn chwarterol. Mae is-grŵp pobl ifanc yn trefnu ymgynghoriad er mwyn casglu ymateb pobl ifanc ynglŷn â'u hagwedd a'u defnydd o'r Gymraeg. Mi fydd holiadur a grwpiau ffocws yn cael eu rhannu ym mis Ionawr gyda'r canlyniadau yn cael eu rhannu gyda'r is-grŵp.

  Y Gymraeg mewn busnes - Mae'r Uned Iaith wedi trafod yn gyson yn ystod y flwyddyn gyda'r Adran Economi a Chynllunio, gyda chamau cadarnhaol wedi eu gwneud er mwyn cryfhau'r Gymraeg o fewn busnesau. Bellach mae brawddeg safonol wedi'i chynnwys mewn cylchlythyr i fusnesau a dogfennau cynllunio yn cyfeirio at y gefnogaeth sydd ar gael o ran cyfieithu ac enwi busnesau.

  Byrddau partneriaethau - Mae cynrychiolydd Uned Iaith yn aelod ar sawl bwrdd partneriaeth, gan gynnwys cynrychioli'r Cyngor ar Is-grŵp iaith Gymraeg Bwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gyfrannu at ddarn o waith sy'n edrych ar arferion da recriwtio gweithwyr gyda sgiliau Cymraeg a'r grŵp Mwy na Geiriau mewnol. Maent hefyd yn cynrychioli'r Gymraeg ar Fwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd a'r is-grŵp buddion, gyda'r gobaith o weithio ymhellach dros y flwyddyn i gasglu tystiolaeth a data'r buddion.

Prosiect Enwau Lleoedd - Mae sawl elfen o'r rhaglen waith wreiddiol y prosiect wedi'u cyflawni, gan gynnwys cynnal sesiwn hyfforddi enwi eiddo i Uned Iaith a chraffu a'r Adran Amgylchedd yn ogystal â gweithdai niferus mewn ysgolion ar enwau lleoedd a sut i gofnodi ar fap enwau lleoedd Cyngor Gwynedd. Mae ap rhestr enwau swyddogol Cyngor Gwynedd wedi ei chreu ac mae cydweithio yn digwydd i drefnu gosod arwyddion newydd mewn rhai mannau a strydoedd er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol yn y gymdeithas.

Ymwelwyr Gwlad y Basg - Cafwyd sgwrs gyda dau o ymwelydd o Wlad y Basg a swyddogion o'r Uned Iaith ac adran economi ym mis Rhagfyr. Trafodwyd perthynas y Fenter Iaith gyda'r cyngor a datblygiadau polisi iaith, gyda'r ymwelwyr yn medru gweld tebygrwydd rhwng ein gwaith fel Cyngor â'u hunain.

- **Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad** –

Hyfforddiant – Mae mwyafrif y sesiynau sy'n cael eu rhedeg drwy gyfrwng y Gymraeg (gydag adnoddau Cymraeg ar gael lle mae'n bosib). Opsiwn i gael cyfieithydd i'r rhai sy'n dysgu (e.e. yn y Gweithdy Croeso).

Mae cyfeiriad penodol at y gallu i gyflwyno hyfforddiant yn ddwyieithog yn y fanyleb sydd wedi'i chreu ar gyfer y broses gaffael.

E-ddysgu - Darparu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. Microsoft Excel, Sgiliau Digidol Sylfaenol, DiSC (heblaw yr adroddiad), Sgiliau Digidol 1:1. Y modiwlau e-ddysgu sy'n cael eu creu yn fewnol ar gael yn Gymraeg.

Datblygu Sgiliau Iaith
Tip Cymraeg y Mis:
Mae **Tip Cymraeg y Mis** yn parhau i gael ei gynhyrchu a'i rannu gyda staff (trwy'r Fewnrwyd, Hwb Hyfforddiant Iaith, grŵp Facebook staff ac e-bost Gair Wythnosol). Mae hefyd yn cael ei rannu gyda Nant Gwrtheyrn a gydag un tiwtor iaith.

Cynllun Cyfeillion:
Mae'r cynllun **Cyfeillion Cymraeg** yn bodoli ers rhai blynyddoedd bellach, ond yn y flwyddyn ddiwethaf sefydlwyd y 'Cylch Cyfeillion', sy'n cyfarfod pob 6 mis i'r aelodau o staff sy'n gwirfoddoli eu hamser i gefnogi eraill sy'n dysgu neu'n datblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'n gyfle i'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg eu cefnogi ac i bawb gael cyfle i rannu unrhyw heriau ac arfer dda.

Mae 5 aelod o staff yn derbyn cefnogaeth trwy'r cynllun Cyfeillion Cymraeg ar hyn o bryd, gyda 2 arall yn aros am Gyfaill.

Hyfforddiant Iaith:
Mae 24 aelod o staff yn derbyn hyfforddiant iaith ar hyn o bryd, gyda 7 wedi cofrestru ar hyfforddiant sydd eto i ddechrau. Cynhaliwyd sgwrs ymgynghorol gyda 5 aelod arall o staff sydd eto i gofrestru ar gwrs addas.

Gwnaed ymholiadau am ddiddordeb mewn cwrs Gloywi Iaith a chwrs Codi Hyder. Dangosodd 21 o aelodau o staff ddiddordeb mewn cwrs Gloywi Iaith (yn ogystal ag un rheolwr yn dangos diddordeb am hyfforddiant i dîm cyfan), ac 18 yn y cwrs Codi Hyder. Bydd y cyrsiau hyn yn cael eu trefnu gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin trwy gynllun Cymraeg Gwaith ar gyfer 2025.

Mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg wedi'u hyrwyddo trwy'r fewnrwyd, yr Hwb Hyfforddiant Iaith, e-bost Gair Wythnosol ac e-byst gan gynnwys anfon gwybodaeth ymlaen at aelodau'r Fforwm Dynodiadau Iaith sy'n anfon y wybodaeth ymlaen at staff eu hadrannau. Mae gwybodaeth am hyfforddiant iaith hefyd yn cael ei rhannu gydag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Mae'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg yn chwilio am gyfleoedd ac yn ymateb i geisiadau i gyflwyno gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i staff ddatblygu eu sgiliau iaith, e.e. cyflwyno yng nghyfarfod Panel Adnoddau Dynol Byw'n Iach.

Fis Tachwedd, cynhaliodd y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg 'Sesiwn Arbenigwyr' gyda'r prentisiaid a'r hyfforddeion newydd er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o statws y Gymraeg yma yn y Cyngor yn ogystal â sicrhau eu bod yn gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith.

Sgiliau Iaith Staff:
Caiff gwybodaeth am lefelau iaith staff ei hadrodd yn chwarterol i holl Benaethiaid adrannau'r Cyngor ar ffurf adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y nifer o staff sydd heb gwblhau'r hunanasesiad iaith, y nifer sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi a gwybodaeth am staff yr adran sy'n dilyn hyfforddiant iaith.

Trwy'r Fforwm Dynodiadau Iaith (sy'n cyfarfod pob chwarter) caiff yr adrannau eu hannog i sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r hunanasesiad iaith, neu'n derbyn asesiad syml gan eu rheolwr llinell. Pwysleisir hefyd bod gofyn i bob rheolwr sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant iaith os nad ydynt yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd.

Ar y cyd â'r Uned Iaith, mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â safon y Gymraeg ysgrifenedig a ddefnyddir ar draws y Cyngor. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar yr her o sicrhau cywirdeb iaith ar draws holl ddogfennau'r Cyngor (yn enwedig y rhai sy'n cael eu cyhoeddi), y sgil o ysgrifennu mewn Cymraeg syml a chlir, chwalu rhai

camsyniadau am y Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd, ac ailedrych ar ddisgrifiadau swyddi.

Buddiannau Staff - Mae gwybodaeth am fuddiannau i staff i gyd yn cael ei chynnig yn ddwyieithog os yw'n bosib.

Mae negodi yn digwydd efo sawl cwmni iddynt ddarparu taflenni gwybodaeth Cymraeg i ni yn lle rhai uniaith Saesneg. icom Works/Terryberry; CSSC, Rhoi wrth Ennill, RAC. Mewn rhai achosion rydym yn trefnu i anfon cyfieithiad atynt a thro arall maent yn trefnu i gyfieithu pethau eu hunain a'u hanfon atom cyn eu cyhoeddi.

Mae ein Hymweliadau/*Roadshows* efo staff yn cael eu cynnal yn ddwyieithog yn ôl y gofyn ac mae'r dogfennau rydym yn eu rhannu efo nhw hefyd yn ddwyieithog. Bu staff yn rhan o *Roadshows* efo Gofalwyr llynedd ac yn gallu hyrwyddo'r gefnogaeth/hyfforddiant iaith yn y sesiynau.

Mae'r Cynllun Hybu Busnesau Lleol hefyd yn ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg. Mae Busnesau yn cael hysbyseb dwyieithog ar ein safle. Pan fyddant yn Fusnes y Mis mae angen i'w stori fod yn Gymraeg.

Talent a Phrentisiaethau - Mae gennym ddatganiad Uchelgais Iaith Gymraeg sy'n nodi'n glir beth yw ein huchelgais ac yn amlinellu'r disgwyliadau ieithyddol ar y prentis, y Cyngor a'r darparwr. Mae sesiynau ymarferol yn trin a thrafod y Gymraeg yn ein Rhwydweithiau Prentisiaid bob ychydig fisoedd.

Mae sesiynau gloywi iaith / cefnogi staff sydd ar wahanol lefelau iaith yn cael eu cynnig. Rydym yn cydweithio efo darparwyr fel Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Bangor a Choleg Cambria ar gynyddu'r ddarpariaeth iaith Gymraeg. Mae adroddiad (Adroddiad Iaith Darparwyr 2024) wedi'i lunio gyda chymorth swyddogion ac Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu sy'n cyflwyno'r sefyllfa bresennol ac yn amlinellu'n cynlluniau ar gyfer y 3 mlynedd nesaf er mwyn gwella'r sefyllfa.

Rydym wedi ein henwebu eleni am wobr Cyflogwr y Flwyddyn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng Ngwobrau Dysgu Seiliedig ar Waith Gogledd Cymru 2025.

Mae gwaith yn cael ei wneud i edrych ar gomisiynu hyfforddiant Codi Hyder yn y gweithle i fod yn rhan o raglen datblygu prentisiaid (drwy gymorth y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg a Dr Elin Angharad Davies, Tiwtor-Drefnydd Gweithle, Prifysgol Bangor).

Rydym yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol – rhannu cyfleoedd a'u gwahodd i drafod pa ddeunyddiau sydd ganddynt all fod o fudd i brentisiaid mewn rhwydweithiau.

Caiff straeon, profiadau ac astudiaethau achos am unigolion sydd wedi llwyddo eu rhannu ar y rhwydweithiau cymdeithasol ac ar gyfryngau fel Gair o Gyngor.

Mae cydweithio'n digwydd gydag Urdd Gobaith Cymru i hyrwyddo a rhannu llwyddiant aelod staff diweddar wrth iddo gymhwyso a chael cynnig swydd ar ôl dilyn ei brentisiaeth yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg.

Recordiwyd podlediad hanner awr yn ddiweddar ar gyfer Cynllun Profi Llwyddo'n Lleol am weithio i Gyngor Gwynedd a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Sicrhau presenoldeb yn Bwrlwm ARFOR - rhaglen sy'n cael ei phweru gan y rhanbarthau ARFOR i ddatgloi busnesau a chymunedau yn ffynnu gyda'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn. Cyfle i adael i sefydliadau a busnesau eraill yn yr ardal wybod pa gyfleoedd sydd ar gael yn y Cyngor i weithio a dathlu'r Gymraeg.

<u>Prentis Dysgu a Datblygu -</u> Dau brif brosiect - Blas ar Waith ac Undeb y Dyfodol – sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r 2 brosiect yn arloesol gan eu bod nhw drwy gyfrwng y Gymraeg, lle nad yw prosiectau o'r fath ar gael mewn sefydliadau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol:**- mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod gan staff fynediad i wybodaeth a chyngor am holl agweddau eu cyflogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n cydweithio â swyddogion undebau llafur i sicrhau bod posib i staff dderbyn cefnogaeth ganddynt hwythau trwy gyfrwng dewis iaith staff. Mae hyn yn cynnwys trefnu fod cyfieithydd ar gael mewn gwrandawiadau cyflogaeth ffurfiol.

  Mae holl drefniadau recriwtio a phenodi'r Cyngor yn ddwyieithog gan gynnwys y drefn o dderbyn ffurflenni cais am swyddi gwag.

**2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?**
*(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)*

Dros y flwyddyn nesaf bydd gwaith parhaus yn digwydd yn yr Adran er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Mi fydd templedi **caffael** yn cael eu diweddaru a'u cyfieithu yn y flwyddyn newydd. Mae'r fewnrwyd a'r ddolen prynu'n ddoeth hefyd yn cael eu diweddaru ac yn gyfle i adolygu'r cynnwys. Mae newid yn y rheoliadau caffael hefyd yn gyfle i atgyfnerthu'r drefn, mae angen amlygu bod hyn wedi bod yn heriol yn y gorffennol. Prin iawn ydi ymatebion Cymraeg gan fusnesau sydd yn tendro am waith y Cyngor.

Bydd y gwaith yn y maes **iechyd galwedigaethol** ac **iechyd a diogelwch** sydd wedi ei amlinellu yng nghwestiwn 1 yn parhau.

Bydd y Gwasanaeth **Ymchwil a Gwybodaeth** yn parhau i gadw golwg ar, a cheisio dylanwadu ar y datblygiadau cenedlaethol o ran casglu gwybodaeth am sefyllfa'r iaith Gymraeg os na fydd Cyfrifiad eto.

Mae llawer o waith yn digwydd gan y Gwasanaeth **Democratiaeth a Iaith** gan gynnwys:

Agwedd at y Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd - Mae'r uned iaith a chraffu wedi bod yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ddau brosiect ymchwil. Mae'r cyntaf yn edrych ar agwedd pobl at y Gymraeg a'r defnydd ohoni drwy holiadur ar-lein. Mae'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau'r holiaduron yn digwydd ar hyn o bryd.

Mae'r ail brosiect yn canolbwyntio ar ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Gyngor Gwynedd neu ar ran Cyngor Gwynedd. Arsylwyd defnydd iaith y cyhoedd mewn derbynfeydd 'Siop Gwynedd', llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden mewn tri lleoliad daearyddol gwahanol yng Ngwynedd sef Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Casglwyd data hefyd am ddewis iaith pobl wrth gysylltu â chanolfan Galw Gwynedd, sy'n darparu gwasanaeth rheng flaen i ymdrin gyda galwadau ffôn gan drigolion ar draws y sir. Cafwyd sampl data o dros 3200. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau yn digwydd ar hyn o bryd gyda'r bwriad o lunio argymhellion i'w cynnwys yn rhaglen waith strategaeth iaith Gwynedd dros y flwyddyn i ddod, er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg.

Prosiect 15 - Mae gwaith Prosiect 15 (sy'n ceisio hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol) wedi ei gyhoeddi am geisiadau tendr ar Gwerthu i Gymru. Bydd yn cynnal y gwaith creadigol am flwyddyn a chreu adroddiad am opsiynau'r prosiect yn y dyfodol er mwyn ei ddatblygu yn ôl anghenion y gynulleidfa. Gobeithir y bydd rhywun yn cychwyn ar y gwaith yn y flwyddyn ariannol newydd.

Cyfathrebu clir - Mae ymdrech yn cael ei roi i wella iaith cyfathrebu'r Cyngor a chwalu'r myth bod angen Cymraeg perffaith i weithio i Gyngor Gwynedd. Drwy gydweithio o fewn timau'r adran, mae'r Uned Iaith, Dysgu a Datblygu, Adnoddau Dynol a Chyfathrebu, wedi sefydlu prosiectau i addasu swydd ddisgrifiadau i'w gwneud yn fwy syml a hygyrch, creu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio Cymraeg clir a fideos chwalu myth gweithio i'r Cyngor.

Menter iaith Gwynedd - Mae cryn waith wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i roi cymorth i sefydlu Menter Iaith Gwynedd yn fenter iaith annibynnol a chynaliadwy a fydd yn cefnogi'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Gwynedd. Mae cytundebau trosglwyddo bellach wedi eu harwyddo, ac yn dilyn proses TUPE yn y flwyddyn newydd, hyderir y bydd staff yn trosglwyddo i'r fenter iaith annibynnol erbyn 1 Ebrill, 2025. Bydd cydweithio er budd y Gymraeg yn parhau gyda'r Fenter iaith i'r dyfodol.

**3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

| |
|---|
| Mae'r Gwasanaeth Caffael wedi gweld yn ddiweddar fod busnesau yn dechrau defnyddio technoleg Deallusrwydd Artiffisial neu AI (*Artificial Intelligence*) i greu ymatebion tendrau, bydd y dechnoleg yma yn amlwg yn Saesneg yn y lle cyntaf.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth wedi ymchwilio i, ac wedi datrys, sut i ddylunio dashfyrddau gwybodaeth yn ddwyieithog fel eu bod yn gweithio'r un fath yn y ddwy iaith a heb bod angen eu poblogi ddwywaith, a fel bod modd symud yn rhwydd rhwng un iaith a'r llall. Maent hefyd wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau mabwysiadu enwau Cymraeg ar gymdogaethau (Ardaloedd Cynnyrch Haen Isaf) yng Ngwynedd, er mwyn eu defnyddio wrth adrodd gwybodaeth am ardaloedd.<br><br>Maer diffyg darpariaeth digonol ar 'Teams' i alluogi cyfieithu ar y pryd wedi bod yn rhwystr ers rhai blynyddoedd, gyda'r Cyngor wedi defnyddio Zoom yn llwyddiannus ar gyfer goresgyn y broblem. Fodd bynnag, mae hynny hefyd wedi creu rhai rhwystrau, gydag ambell bartner yn gwrthod defnyddio'r dechnoleg. Mae camau pellach wedi eu gwneud yn ddiweddar iawn wrth ddatblygu Teams ymhellach, a byddwn yn arbrofi gyda'r ddarpariaeth a'r dechnoleg sydd gennym o fewn y Cyngor dros y misoedd nesaf.<br><br>Nid yw technoleg 'analytics' cyfryngau cymdeithasol yn gweithio yn y Gymraeg (e.e. mesur sentiment, y defnydd o "tags", trefnu ymgyrchoedd). Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu defnyddio'r dechnoleg i'r eithaf.<br><br>Nid yw gwasanaethau monitro'r wasg yn monitro cyfryngau iaith Gymraeg, felly rydym yn gorfod gwneud y gwaith monitro ein hunain.<br><br>Mae llwyfannau fel YouTube yn cynnig isdeitlau a thraws-ysgrifiad 'auto-generated' ond nid yw'n gweithio yn Gymraeg, sy'n golygu ein bod yn gorfod ei gynhyrchu ein hunain, sy'n cymryd mwy o amser.<br><br>Mae gwefan y Cyngor yn cael ei datblygu gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Mae'r ffaith fod angen ei "ddysgu" mewn dwy iaith yn arafu'r broses. |
| **4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?** |
| Nid yw'r Gwasanaeth **Caffael** yn casglu data ar hyn o bryd. Mae systemau cenedlaethol caffael yn cael eu datblygu i ddal gwybodaeth am gwmnïau, fel rhan o hyn mae cyfeiriad wedi bod i'r posibilrwydd y bydd y nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn cwmniau yn cael ei ddal. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i bwyso am welliant yn y maes yma a bydd angen i'r Cyngor adrodd ar y mesur hwn fel rhan o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.<br><br>Mae'r Gwasanaeth **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** yn casglu data am y niferoedd sy'n defnyddio gwefan y Cyngor drwy'r Gymraeg.<br><br>Cesglir llawer o ddata gan y Gwasanaeth **Dysgu a Datblygu'r Sefydliad** gan gynnwys**:** |

Hyfforddiant iaith - Mae'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg yn cadw gwybodaeth am lefelau iaith holl staff y Cyngor (gan ddefnyddio'r holiadur hunanasesu iaith sydd ar gael ar Hunanwasanaeth Staff) yn ogystal â gwybodaeth am holl staff y Cyngor sy'n mynychu hyfforddiant iaith.

Ar draws y Cyngor, mae 24 aelod o staff yn derbyn hyfforddiant iaith ar hyn o bryd, gyda 7 wedi cofrestru ar hyfforddiant sydd eto i ddechrau. Cynhaliwyd sgwrs ymgynghorol gyda 5 aelod arall o staff sydd eto i gofrestru ar gwrs addas.

Prentisiaethau – Mae data cyffredinol yn cael ei gasglu am gyfrwng iaith o ran darparwyr ond nid oes data yn cael ei gasglu ar hyn o bryd am y ddarpariaeth o fewn y Cyngor e.e. "7.5% yn dewis astudio eu pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg (yn y Brifysgol/Coleg)".

Adroddiad Iaith Darparwyr (Prentisiaethau) - Mae adroddiad wedi ei lunio gyda chymorth swyddogion a'r Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu sy'n cyflwyno'r sefyllfa bresennol ac yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer y 3 mlynedd nesaf er mwyn gwella'r sefyllfa trwy gydweithio gyda'r prentisiaid eu hunain a'r darparwyr allanol, e.e. Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Bangor a Choleg Cambria. Er mwyn monitro'r sefyllfa byddwn yn casglu gwybodaeth yn flynyddol trwy gyfrwng holiadur sy'n cael ei anfon at holl brentisiaid y Cyngor.

Hyfforddiant Corfforaethol – Ar y system MoDS, cesglir cofnod o ba gyfrwng y mae staff wedi gwneud eu hyfforddiant. Y data ar gyfer 2024 yw:

| **Hyfforddiant Corfforaethol2024** | Cymraeg | Saesneg | Dwyieithog |
|---|---|---|---|
| Nifer Digwyddiadau | 320 | 60 | 16 |
| Nifer Unigolion Unigryw | 1,192 | 208 | 98 |

**5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?**

Mae **176** o staff yn Adran Gwasanaethau Corfforaethol. O'r 176 mae **166** wedi cwblhau'r holiadur iaith ac mae gan 168 rhyw fath o asesiad iaith (wedi cwblhau'r holiadur neu dderbyn asesiad syml gan reolwr llinell).

O ran gwasgariad lefelau iaith, mae 8 unigolyn ar lefel Canolradd, 39 ar lefel Uwch a 119 ar lefel Hyfedredd. Mae 2 unigolyn wedi derbyn asesiad iaith gan eu rheolwr llinell a does gan 8 ddim asesiad iaith hyd yma.

**6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.**

Gweler isod enghreifftiau gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol o rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig â darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg:

**Canmoliaeth:**

Daeth swyddogion Menter Iaith Gwynedd i'r brig yng ngwobrau Mentrau Iaith Cymru. Cafwyd gwobr rhagoriaeth am y gwaith a wnaed gyda phrosiect Croeso Cymraeg - Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru. Braf hefyd oedd clywed canmoliaeth mewn seminar gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch arfer da strategaethau iaith am benderfyniad Cyngor Gwynedd i lunio strategaeth iaith Gymraeg 10 mlynedd yn hytrach na 5 mlynedd. Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau annibynnol cadarnhaol iawn gan ymwelwyr Gwlad y Basg a Phrifysgol Bangor ynghylch swmp y gwaith sy'n cael ei gyflawni i hyrwyddo'r Gymraeg ar lawr gwlad drwy gynifer o wahanol brosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Uned Iaith a'r Cyngor.

**Rhwystrau:**

Diffyg argaeledd darpariaeth yn y Gymraeg gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus megis WLGA a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r diffyg yma yn golygu ein bod ni fel sefydliad yn cael gwaith ychwanegol i sefydlu ffordd amgen o weithio byth a beunydd. Mae'r maes hyfforddiant yn un enghraifft.

Noda'r Gwasanaeth Caffael nad yw busnesau yn edrych ar fersiwn Gymraeg tendrau ac maent yn dueddol o ymateb yn Saesneg. Mae rheoliadau, templedi a chanllawiau caffael yn dueddol o cael ei cynhyrchu yn Saesneg, cost ac amser cyfieithu, costau uwch o gael systemau/gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a cheir dadl bod llai o risg cael cytundeb uniaith.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2024:

Cefnogaeth Gorfforaethol Cynllun Hybu'r Gymraeg.pdf